



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board

**Band 8b - Fferylllydd Gofal
Sylfaenol Uwch**

**Darllen y Swydd Ddisgrifiad yn
Gymraeg**

**Band 8b - Advanced Primary
Care Pharmacist**

**Read the Job Description in
English**



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board

TEITL Y SWYDD: Fferylllydd Gofal Sylfaenol Uwch

Band: 8b

TROSOLWG O'R SWYDD:

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am arwain, datblygu, cyflawni, monitro a rheoli amrywiaeth o wasanaethau fferylliaeth glinigol gofal sylfaenol uwch, yn unol ag egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, a bydd yn gwneud y canlynol:

- Cynnig mentoriaeth, goruchwyliaeth glinigol a chymorth er mwyn helpu i ddatblygu'r tîm rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol, aelodau tîm y practis a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill
- Defnyddio arbenigedd fferyllol hynod arbenigol i ymgynghori â chleifion a phresgripsiynu'n annibynnol o fewn cwrpas ei ymarfer arbenigol
- Datblygu gwasanaethau a strategaethau pan fônt yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol
- Cynorthwyo practisau, clystyrau a'r Bwrdd Iechyd ehangach i wella ansawdd ac effeithiolrwydd dulliau rheoli meddyginiaethau mewn gofal sylfaenol
- Lleihau amlgyffuriaeth a phresgripsiynu gwastraffus amhriodol
- Ennyn diddordeb cleifion yn eu gofal trwy ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar gleifion ac egwyddorion cydgynhyrchu
- Rhoi dull cyfannol ar waith er mwyn cynorthwyo i optimeiddio meddyginiaethau mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol
- Rhoi gofal fferyllol i amrywiaeth o gleifion, yn cynnwys cleifion a all fod yn eiddil ac yn agored i niwed a chleifion ag anghenion hynod gymhleth
- Rhoi hyfforddiant arbenigol, addysg a chyngor fferyllol arbenigol i bresgripsiynwyr a staff gofal iechyd eraill
- Arwain a datblygu archwiliadau clinigol ynghyd â chydlynu a chynnal gwaith ymchwil a chyflwyno hyfforddiant arbenigol
- Creu cysylltiadau gweithio agos gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn hyrwyddo gofal di-dor a sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion
- Datblygu ac ymestyn y rôl, gan sicrhau bod cwrpas yr ymarfer yn cyd-fynd â chymwyseddau a ddiffinnir o fewn ffiniau personol ymarfer clinigol yr unigolyn

Yn gyfrifol i'r canlynol:

Yn adrodd i'r canlynol:

Yn atebol i'r canlynol:

Yn atebol yn broffesiynol i'r canlynol:

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Hyblygrwydd y Rôl, Cymwyseddau ac Egwyddorion Datblygu

- Mae'r swydd-ddisgrifiad yn ymdrin ag amrywiaeth o rolau fferyllwyr gofal sylfaenol uwch, gan gydnabod ar yr un pryd y materion sy'n prysur ddatblygu o ran y gweithlu ynghyd â chwmpas newidiol yr ymarfer ar yr adeg y lluniwyd y swydd-ddisgrifiad hwn. Gan y bydd canolbwynt y dyletswyddau'n amrywio yn ôl blaenoriaethau a rôl gyfredol pob fferyllwydd, rhaid i ddeiliaid swyddi gofnodi a chynnal eu ffiniau personol eu hunain mewn perthynas ag ymarfer clinigol a chysylltu'n agos â rheolwyr llinell a goruchwylwyr clinigol priodol a grwpiau cymheiriaid. Mae'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar brif ganolbwynt y rôl yn cynnwys:
 - A yw deiliad y swydd wedi'i leoli mewn bwrdd iechyd, clwstwr neu bractis
 - Cymwyseddau a meysydd arbenigol pob fferyllwydd unigol, fel y'u diffinnir yn ffiniau personol ymarfer clinigol yr unigolyn, yn cynnwys meysydd cymhwysedd cyfredol presgripsiynwyr annibynnol
 - Blaenoriaethau newidiol a datblygiadau o fewn practisau/clystyrau/y bwrdd iechyd
 - Natur esblygol y rolau yn unol â datblygiadau yn y gweithlu gofal sylfaenol

Dyletswyddau Clinigol sy'n Canolbwyntio ar Gleifion

- Defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar gleifion er mwyn optimeiddio meddyginiaethau, gan ystyried yn llwyr safbwyntiau ac anghenion y cleifion ynghyd â materion cymdeithasol ac ymarferol, ochr yn ochr â materion clinigol. Gellir cyfathrebu gyda'r cleifion a'u gofaluwyd wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu'n ysgrifenedig, a gall hynny ddigwydd mewn amrywiaeth o leoliadau, megis yn y practis, yng nghlinigau/hybiau'r clwstwr, mewn cartrefi gofal, yng nghartref y claf, neu o swyddfeydd y Bwrdd Iechyd. Datblygu cynlluniau gofal fferyllol ar gyfer cleifion unigol fel y bo'n briodol, e.e. targedu cleifion a gaiff eu derbyn yn fynych i'r ysbyty/cleifion ag anhwylderau sy'n gwaethygu/cleifion eiddil oedrannus ac ati.
- Cyfrannu at leihau derbyniadau ac aildderbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau trwy gynorthwyo cleifion i sicrhau bod eu meddyginiaethau'n esgor ar y canlyniadau gorau, a hefyd trwy ganfod problemau'n ymwneud â meddyginiaethau a delio gyda nhw. Adolygu anghenion cleifion o ran meddyginiaethau, naill ai wyneb yn wyneb a/neu dros y ffôn. Bydd yr adolygiadau hyn yn perthyn yn bennaf i ddau gategori, sef categorïau â gwahanol lefelau risg a fframweithiau cymwyseddau/ategol cysylltiedig.

Diagnosis gwahaniaethol (hynny yw, mae'r cyflwr a gaiff ei drin wedi cael ei ddiagnosisio'n flaenorol gan Weithiwr Proffesiynol Gofal Iechyd cymwysedig arall). Bydd enghreifftiau'n cynnwys Adolygu meddyginiaethau cyffredinol ac amlgyffuriaeth, Clinigau ar gyfer monitro effeithiau meddyginiaethau trwy wirio arwyddion a symptomau clinigol pan ddefnyddir meddyginiaethau fel y prif ymyriad e.e. meddyginiaethau gwrthgeulo a chlefydau cronig fel asthma, diabetes, methiant y galon, pwysedd gwaed ac ati.

- Pennu'r driniaeth fwyaf priodol ar sail y diagnosis blaenorol, e.e. dewis o feddyginiaethau gwrthgeulo pan fo'r claf wedi'i ddiagnosisio â ffibriliad atrïaidd
- Ystyried ceisiadau cleifion am feddyginiaethau, a ddarperir yn ysbeidiol ar bresgripsiwn aciwt, pan fo'r cyflwr/diagnosis wedi cael ei adolygu'n ddiweddar gan weithiwr proffesiynol gofal iechyd cymwysedig o fewn cyfnod sy'n rhesymol yn glinigol.
- Mân anhwylderau ar ôl i Weithiwr Proffesiynol Gofal Iechyd cymwysedig arall frysbennu'r claf, diystyru cyflyrau hynod

ddifrifol, nodi mai mân anhwylder yw'r cyflwr ac atgyfeirio'r claf at y fferyllydd er mwyn i'r fferyllydd allu argymell triniaeth yn unol â ffiniau ei ymarfer clinigol.

Diagnosis Anwahaniaethol a Brysbennu

Hynny yw, pan gaiff claf ei ddiagnosio am y tro cyntaf neu pan dynnir sylw at anhwylder newydd wrth ymgynghori â'r fferyllydd ynglŷn â chyflwr sy'n bodoli eisoes. Mae mwy o risg yn perthyn i'r gweithgarwch hwn, a dim ond yn unol â ffiniau ymarfer clinigol yr unigolyn y dylid mynd i'r afael â'r gwaith hwn, pan fo'r fferyllydd yn meddu ar y cymwyseddau priodol.

- Mae deiliad y swydd wedi pennu uwch-ymarferydd clinigol sy'n meddu ar y cymwyseddau gofynnol, ynghyd â grŵp cymheiriaid proffesiynol, i'w gynorthwyo pe bai angen cymorth gydag unrhyw un o'r gweithgareddau diagnostig.
 - Os ceir amheuaeth o unrhyw fath, dylid atgyfeirio'r claf at y gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol / dylid rhoi unrhyw argymhellion a gymeradwywyd gan y meddyg teulu ar waith.
- Llofnodi presgripsiynau rheolaidd sy'n deillio o feddygfeydd pan fo'r fferyllydd yn gwneud gwiriadau clinigol addas ac yn ymyrryd pan fo angen. Dim ond yn unol â ffiniau ymarfer clinigol yr unigolyn y dylid gwneud hyn a phan fo'r holl wiriadau clinigol perthnasol wedi'u cynnal cyn llofnodi'r presgripsiwn.
 - Adolygu meddyginiaethau a datrys problemau trwy gyfrwng dulliau ac eithrio dull wyneb yn wyneb. Er enghraifft:
 - Cysoni meddyginiaethau cleifion sydd wedi'u rhyddhau o'r ysbyty, cleifion sy'n symud i gartrefi gofal neu sy'n gadael cartrefi gofal, a chleifion sydd newydd gofrestru gyda'r practis.
 - Ailawdurdodi meddyginiaethau ar ôl cynnal gwiriadau clinigol addas.
 - Cysoni meddyginiaethau. Presgripsiynu rhyngwynebol/ymholiadau'n ymwneud â llyfrau fformiwlâu a materion yn ymwneud â fformiwlâu
 - Ateb cwestiynau cyffredinol/datrys problemau cyffredinol
 - Rhoi cyngor fferyllol arbenigol hynod gymhleth o ddydd i ddydd i feddygon teulu, nyrsys, staff eraill y practis/clwstwr, cleifion a staff anfeddygol fel y bo'n briodol - hynny yw, cyngor yn ymwneud â phob agwedd ar bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau. Bydd hyn yn cynnwys diffinio opsiynau ar gyfer gofal/triniaeth a argymhellir i unigolion a grwpiau penodol o gleifion, ateb ymholiadau, gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth, crynhoi gwybodaeth am gyffuriau, a rhoi cyngor cyfredol ynglŷn â chyffuriau a chyngor therapiwtig ar sail tystiolaeth gyfredol ac ati.
 - Trefnu bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal, ynghyd â dehongli'r canlyniadau neu weithredu ar eu sail, o fewn cwrdd eich cymwyseddau. Gwneud ychwaneg o ymyriadau therapiwtig fel y bo'n briodol er mwyn cyfrannu at reoli clefydau cronig mewn modd cyfannol, e.e. cyfeirio cleifion at wybodaeth yn ymwneud â'u ffordd o fyw, megis rhoi'r gorau i smygu.
 - Defnyddio ac ymestyn sgiliau perthnasol ac arbenigedd clinigol ehangach pan fo hynny'n briodol i'r rôl, e.e. monitro pwysedd gwaed, sbirometreg, sgiliau archwilio, profion mewn mannau lle rhoddir y gofal, pigiadau rhag y fflw ac ati. Defnyddio arbenigedd fferyllol hynod arbenigol fel y gellir ymgynghori â chleifion a phresgripsiynu'n annibynnol o fewn cwrdd eich ymarfer arbenigol.

Cyfathrebu/Cydberthnasau Hollbwysig/Gweithio mewn Partneriaeth

- Integreiddio gwerthoedd Prifysgol Bae Abertawe wrth ryngweithio – sef gweithio gyda'n gilydd, gwella o hyd a gofalu am y naill a'r

llall. Cyfathrebu gyda chleifion/gofalwyr a rhoi cyngor arbenigol iddynt ynglŷn â dulliau cywir a diogel o ddefnyddio'u meddyginiaeth, gan ddefnyddio egwyddorion cydgynhyrchu. Yn aml, bydd yr wybodaeth yn hynod gymhleth a sensitif a bydd angen ystyried eu cyflwr clinigol arbenigol e.e. sgil-ffeithiau posibl, rhagofalon yn ymwneud â rhai clefydau a gofal diwedd oes. Yn aml, bydd angen sgiliau cyfathrebu datblygedig iawn i oresgyn anawsterau cyfathrebu, e.e. yr henoed, cleifion dryslyd neu fyddar, a bydd angen perswadio cleifion i gydymffurfio â'u meddyginiaethau.

- Gweithio gyda chleifion/perthnasau llawn gofid a chleifion sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes/cleifion â salwch angheuol yn ystod argyfyngau neu pan fo ganddynt broblemau cymdeithasol cymhleth. O dro i dro, efallai y bydd deiliad y swydd yn dod i gysylltiad â phobl sy'n ymddwyn yn heriol iawn (e.e. pobl sy'n camddefnyddio sylweddau / pobl sy'n ddibynnol ar gyffuriau / pobl â symptomau dementia).
- Cysylltu a chydweithredu â chydweithwyr a sefydliadau partner priodol er mwyn sicrhau bod dulliau o ansawdd yn cael eu rhoi ar waith gogyfer rheoli meddyginiaethau. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â thimau gofal aciwt, clystyrau, meddygon teulu a staff practisau, nyrsys ardal, Timau Adnoddau Cymunedol, Timau Gofal Cartref, Timau Rhag-gynllunio Gofal, Fferyllfeydd Cymunedol, y gwasanaethau cymdeithasol a Byrddau Iechyd eraill fel bo'r angen.
- Mynychu cynadleddau a chyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol, a chyfrannu atynt, er mwyn trefnu a hwyluso gofal ar gyfer cleifion hynod gymhleth. Mynychu cyfarfodydd amlddisgyblaethol, a chyfrannu atynt, er mwyn cynllunio a chyfrannu at archwiliadau clinigol a gwneud argymhellion ynglŷn â therapi cyffuriau i gleifion mewn maes hynod arbenigol. Adolygu a gweithredu argymhellion priodol sy'n deillio o Adolygiadau Defnyddio Meddyginiaethau/Adolygiadau Meddyginiaeth Rhyddhau a bennir gan fferyllwyr cymunedol.
- Rhoi cyngor fferyllol a chlinigol hynod arbenigol o ddydd i ddydd i feddygon teulu, nyrsys, staff eraill y practis/clwstwr a chleifion, fel y bo'n briodol – hynny yw, cyngor yn ymwneud â phob agwedd ar bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau.
- Cyfathrebu gwybodaeth hynod gymhleth, sensitif neu ddadleuol yn effeithiol i amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol a grwpiau cleifion. Bydd hyn yn cynnwys pennu materion, paratoi gwybodaeth trwy waith arfarnu beirniadol, cyflwyno, cynrychioli buddiannau'r practis/clwstwr a dylanwadu ar benderfynwyr.
- Cyfathrebu materion yn ymwneud â phresgripsiynu i staff gofal iechyd perthnasol a hyrwyddo dull yr economi gyfan mewn perthynas â defnyddio cyffuriau, gan wneud y gorau o adnoddau o ganlyniad i hynny. Darparu cyngor fferyllol uwch, arweiniad ac adroddiadau ar gyfer amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, fel bo'r angen, yn cynnwys timau rheoli'r Bwrdd Iechyd, timau gofal sylfaenol, timau nyrsio, cyllid a llywodraethu, e.e. digwyddiadau'n ymwneud â thrin meddyginiaethau, cyffuriau a reolir/storio diogel/materion yn ymwneud â diogelwch meddyginiaethau/gwybodaeth gyllid.
- Gweithio'n agos gyda thîm rheoli meddyginiaethau ehangach y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau yr ategir blaenoriaethau a mentrau lleol a chenedlaethol, yn cynnwys meysydd cynlluniau gwaith a dargedir. Datblygu a chyfrannu at gyngor a llwybrau lleol a/neu gyngor a llwybrau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â meddyginiaethau. Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau ymarfer a chynlluniau clwstwr.
- Delio â gwybodaeth hynod gymhleth yn ymwneud â chyffuriau neu feddyginiaethau, yn cynnwys herio ymddygiad presgripsiynu nad yw'n cyd-fynd ag argymhellion y bwrdd iechyd neu argymhellion cenedlaethol.
- Efallai y bydd y gwaith cyfathrebu'n cynnwys cyfarfodydd un-i-un, sesiynau mewn grwpiau bach neu siarad yn gyhoeddus a rhoi cyflwyniadau gerbron grwpiau priodol. Pan fo hyn yn rhan o'r rôl, ysgwyddo cyfrifoldeb dros reoli Technegwyr Rheoli

Meddyginiaethau, Clercod Presgripsiynu ac aelodau eraill y tîm fel y bo'n briodol ac fel y cytunwyd gyda deiliad y swydd (bydd hyn yn cynnwys dyrannu tasgau, cyfrifoldebau dirprwyedig a goruchwyllo).

- Pan fo hyn yn rhan o'r rôl, ysgwyddo cyfrifoldeb dros fod yn rheolwr llinell ar staff sy'n gysylltiedig â meysydd cyflawni gwasanaethau.

Addysg a Datblygu

- Ysgwyddo rôl arweiniol o ran darparu mentoriaeth, goruchwyliaeth glinigol a chymorth er mwyn cynorthwyo i ddatblygu'r tîm rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol a staff perthnasol eraill, e.e. staff clinigol yn y practis, clercod presgripsiynu ac ati.
- Ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus ac addysg ôl-radd reolaidd yn unol â'r DPP gofynnol ar gyfer parhau i gofrestru gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.
- Sicrhau eich bod yn gwybod y diweddaraf am wybodaeth newydd yn ymwneud â phresgripsiynu a materion yn ymwneud â meddyginiaethau, tynnu'r wybodaeth hollbwysig gogyfer ei harfarnu a'i lledaenu ymhlith y tîm gofal iechyd sylfaenol.
- Pennu hyfforddiant sy'n angenrheidiol i ddatblygu ac ategu'r rôl ac ymgymryd â'r hyfforddiant hwnnw er mwyn ymestyn sgiliau clinigol perthnasol a sicrhau bod cwmpas eich ymarfer yn cyd-fynd â'r cymwyseddau a ddiffinnir yn ffiniau personol eich ymarfer clinigol.
- Pennu hyfforddiant sy'n angenrheidiol i ddatblygu ac ategu'r rôl ac ymgymryd â'r hyfforddiant hwnnw, gan sicrhau bod cwmpas eich ymarfer yn cyd-fynd â'r cymwyseddau a ddiffinnir yn ffiniau personol eich ymarfer clinigol.
- Rhwydweithio gyda meddygon teulu/fferyllwyr gofal sylfaenol eraill er mwyn rhannu arferion gorau, ategu prosesau adolygu gan gymheiriaid, goruchwyliaeth glinigol ac ati.
- Datblygu a chynnal Datganiad Ffiniau Ymarfer Clinigol a chynllun datblygu cymwyseddau.
- Defnyddio fframweithiau cymwyseddau presgripsiynu addas i ddatblygu sgiliau generig ac uwch.
- Cysylltu ag arweinydd proffesiynol priodol ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau yng nghwmpas eich ymarfer.
- Dadansoddi data presgripsiynu hynod gymhleth yn ymwneud â phracticisau a'i ddefnyddio fel arf addysgol i roi adborth priodol i bracticisau ynghylch eu perfformiad ac i gynllunio meysydd y dylid eu targedu ar gyfer gwelliannau.
- Datblygu a chyflwyno addysg, hyfforddiant a hyfforddiant arbenigol i bresgripsiynwyr, fferyllwyr, technegwyr, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill a chleifion, fel y bo'n briodol. Efallai y bydd hyn yn cynnwys:
 - Trefnu cyfarfodydd i gyflwyno a thrafod protocolau/materion therapiwtig
 - Rhoi adborth ar waith archwilio, yn cynnwys meysydd y dylid eu gwella
 - Datblygu deunyddiau ategol yn ymwneud â phresgripsiynu / offer cymorth ar gyfer penderfyniadau presgripsiynu ac ati
 - Trefnu lleoliadau a mentora presgripsiynwyr anfeddygol, nyrsys, fferyllwyr cyn-cofrestru a fferyllwyr diploma
 - Goruchwyllo a monitro'r modd y caiff staff y practis eu hyfforddi mewn perthynas â phresgripsiynu rheolaidd
 - Rhoi cyflwyniadau i amrywiaeth o gynulleidfaedd, yn cynnwys grwpiau cleifion

Ategu Arferion Gorau, Diogelwch a'r Modd y Darperir Gwasanaethau

- Cynnig arweiniad ar ddatblygu gwasanaethau arloesol mewn gofal sylfaenol, gan fynd i'r afael â gwaith yn ymwneud ag arwain y ffordd/canfod llwybrau a rhannu'r pethau a ddysgir.

- Cynnig arweiniad ar, ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros, y modd y darperir gwasanaethau hynod arbenigol ledled nifer o bractisau/clystyrau. Datblygu a chynnig polisïau neu newidiadau mewn gwasanaethau a fydd yn effeithio ar feysydd eraill a chynnig newidiadau yn eich maes eich hun. Cynnig cyngor a chymorth ar gyfer datblygu cynlluniau a strategaethau yn y tymor hwy pan fônt yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol. Cynnal ymweliadau presgripsiynu mewn practisau bob blwyddyn, pan fo hynny'n briodol i'r rôl.
- Arwain ymchwiliadau fel y bo'n briodol, yn dilyn digwyddiadau/pryderon ynghylch perfformiad.
- Rhoi cymorth a chyngor ynglŷn â materion yn ymwneud â chynaliadwyedd practisau pan fônt yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau.
- Cynorthwyo i gyflawni camau a mentrau presgripsiynu y cytunwyd arnynt, yn cynnwys camau presgripsiynu Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Chynlluniau Rheoli Presgripsiynu. Cyfrannu at gyflawni Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a chyfrannu at/rheoli gwasanaethau uwch perthnasol, e.e. cyffuriau gofal a rennir, meddyginiaethau gwrthgeulo, cartrefi gofal ac ati. Cynorthwyo clystyrau i gyflawni amcanion gwell mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau, e.e. y rhai a nodir mewn cynlluniau clwstwr.
- Rhoi cyngor ynghylch cyflwyno gwell systemau yn y practis gogyfer meddyginiaethau targed/risg uwch, yn ogystal â datblygu systemau o'r fath – e.e. meddyginiaethau gwrthgeulo, cyffuriau gofal a rennir, cyffuriau y dylid eu rhoi mewn ysbytai yn unig ac ati. Datblygu a sefydlu clinigau a gaiff eu rhedeg gan fferyllwyr o fewn cwmpas eich ymarfer.
- Cynorthwyo i weithredu canllawiau ac arferion gorau lleol a chenedlaethol, e.e. Canllawiau Arfarnu Technoleg NICE, Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan, Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol, llyfrau fformiwlâu, llwybrau clinigol, triniaethau sy'n defnyddio cyffuriau newydd ac ati. Efallai y bydd hyn yn cynnwys datblygu protocolau clinigol, mentrau/archwiliadau clinigol.
- Cynnig arweiniad ar ymchwil ac archwiliadau clinigol hynod gymhleth a mynd ati i ddatblygu gwaith o'r fath, gan sicrhau bod yr holl ofynion cyfreithiol a phroffesiynol, ynghyd â'r holl ofynion o ran gwasanaethau, yn cael eu bodloni. Ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddatblygu a gweithredu polisïau a chanllawiau'n ymwneud â meddyginiaethau o fewn y practis/clwstwr.
- Adolygu polisïau sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â phresgripsiynu a datblygu polisïau newydd, yn cynnwys defnyddio ffyrdd o leihau gwastraff meddyginiaethau.
- Adolygu gohebiaeth glinigol a dderbynnir gan ofal eilaidd er mwyn sicrhau bod argymhellion ar gyfer defnyddio/presgripsiynu meddyginiaethau newydd yn briodol mewn perthynas â chanllawiau presgripsiynu lleol a chenedlaethol (yn cynnwys adolygu a ddilynnir y llyfr fformiwlâu lleol) a chymryd camau i ddatrys problemau.
- Gwella diogelwch meddyginiaethau, yn cynnwys cymryd camau o ran hysbysu, adrodd am ddigwyddiadau, adrodd am gardiau melyn ac ati. Pennu a rhannu cyfleoedd gogyfer Presgripsiynu Darbodus. Ymchwilio i ddigwyddiadau'n ymwneud â meddyginiaethau er mwyn dysgu a gwella'r ymarfer oddi mewn i ddiwylliant gwelliant parhaus.
- Cymryd rhan yn y broses rheoli risgiau ac mewn gweithgareddau archwilio clinigol a gweithgareddau llywodraethu clinigol o fath arall, yn cynnwys rheoli risgiau'n ymwneud â chwmpas eich ymarfer eich hun. Datblygu protocolau fel y bo'n briodol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar weithgareddau risg uwch. Dylai'r protocolau hyn gynnwys proses ar gyfer monitro digwyddiadau ac adolygu gwasanaethau. Ategu gweithgareddau iechyd y cyhoedd a gweithgareddau hyrwyddo iechyd, yn cynnwys rhoi'r gorau i

smygu, rhoi pigiadau rhag y ffliw ac ymgyrchoedd gwrthfotigau. Cynorthwyo i reoli cyffuriau a reolir o fewn y practis/clwstwr/cartref gofal a chynghori'r tîm ynghylch ffyrdd diogel o drin cyffuriau a reolir a meddyginiaethau eraill, gan sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaethau meddyginiaethau a chan dynnu sylw'r Swyddog Atebol at unrhyw broblemau. Ategu/arwain ymchwiliadau fel y bo'n briodol, yn dilyn digwyddiadau/pryderon ynghylch perfformiad ac ati.

Rheoli Gwybodaeth


- Adolygu a monitro data presgripsiynu, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r canllawiau a'i fod yn cynyddu cost-effeithlonrwydd.
- Datblygu a gweithredu systemau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn ymwneud ag adolygiadau cleifion yn cael ei chofnodi'n gywir, yn cynnwys codau READ priodol a defnyddio templedi yn unol â gofynion y practis.
- Adolygu, coladu a rhannu mesurau canlyniadau, gan roi diweddariadau rheolaidd am eich gwaith a chwmpas eich ymarfer fel y bo'n briodol, e.e. i'ch rheolwr llinell/practis/clwstwr. Cynllunio, datblygu a gwerthuso dulliau a phrosesau ar gyfer casglu, dadansoddi, dehongli a chyflwyno data a gwybodaeth hynod gymhleth.
- Mynd ati fel bo'r angen i goladu gwybodaeth ansoddol a meintiol hynod gymhleth a llunio dadansoddiadau priodol fel y gellir llunio adroddiadau cadarn a dadansoddi, dehongli a chyflwyno data hynod gymhleth er mwyn tynnu sylw at broblemau a risgiau ac ategu penderfyniadau.
- Darparu a derbyn gwybodaeth hynod gymhleth, sensitif a dadleuol, gan gyflwyno gwybodaeth i amrywiaeth eang o randdeiliaid.
- Cynnal cofnodion meddygol cleientiaid / cleifion, fel y bo'n briodol, a chynnal cyfrinachedd yr wybodaeth (yn cynnwys data presgripsiynu) bob amser, yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, canllawiau moesegol a chanllawiau Caldicott.
- Addasu a llunio systemau gwybodaeth er mwyn bodloni eich manylebau eich hun a manylebau eraill, e.e. templedi, llyfrau fformiwlâu'r practis/clwstwr ac ati.

Barn a Phenderfyniadau

- Gweithio ar eich liwt eich hun o fewn ffiniau proffesiynol ac o fewn protocolau a deddfwriaethau lleol a chenedlaethol. Gweithio'n annibynnol er mwyn cynllunio, trefnu a chynnal clinigau (e.e. gorbwysedd, INR ac ati) ac adolygu meddyginiaethau clinigol mewn practisau, cartrefi gofal a chartrefi cleifion trwy ddefnyddio systemau clinigol meddygon teulu a nodiadau cleifion, gan gynnal ymgynghoriadau wyneb yn wyneb a chofnodi unrhyw ymyriadau'n fanwl gywir yng nghofnodion y claf.
- Defnyddio hyfforddiant hynod arbenigol er mwyn gallu presgripsiynu'n annibynnol ar sail anghenion clinigol, gan gydnabod y cymhwysedd a'r angen i atgyfeirio fel bo'r angen. Gweithredu ar sail eich barn eich hun yn ddyddiol mewn perthynas â gwneud argymhellion ynglŷn â rheoli meddyginiaethau, gan ystyried canllawiau clinigol, safonau proffesiynol a chyfraith meddyginiaethau.
- Dilyn polisiau proffesiynol a chyffredinol gyda'r angen i ddehongli ar gyfer maes arbenigol, gan sicrhau eich diogelwch trwy ddilyn y Polisi Gweithwyr Unigol wrth ymweld â chartrefi cleifion.
- Cytuno ar amserlenni a chanlyniadau ansawdd gogyfer cyflawni mentrau heb fawr ddim goruchwyliaeth. Cynllunio a blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun a llwyth gwaith gweithwyr eraill er mwyn sicrhau y cyflawnir yr amcanion. Agor a rheoli cyfarfodydd ar gyfer gwella canlyniadau'n ymwneud â meddyginiaethau.

Cymwysterau a Gwybodaeth Hanfodol	Dymunol	Profiad Hanfodol	Dymunol
<p>Gradd mewn Fferylliaeth Wedi cofrestru gyda'r Cyngor Fferylliaeth Cyffredinol Diploma Ôl-radd mewn maes arbenigol neu gymhwyster perthnasol arall</p> <p>Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus diweddar a pherthnasol, statws Presgripsiynydd Annibynnol Dealltwriaeth o systemau, strwythurau a diwylliant Gofal Sylfaenol a'r gallu i roi gwybodaeth glinigol gyfredol ar waith Gwybodaeth ddamcaniaethol neu ymarferol uwch dros gwmpas ymarfer eang a/neu faes hynod arbenigol. Therapiwteg – gwybodaeth drylwyr am y cyffuriau a ddefnyddir ar hyn o bryd, sut i optimeiddio meddyginiaethau, sut i ddehongli canlyniadau ac ati. Gwybodaeth am faterion yn ymwneud â llywodraethu clinigol a materion yn ymwneud ag amddiffyn oedolion agored i niwed Gwybodaeth am reoli a fferylliaeth glinigol, ar lefel sy'n gymesur â'ch cymwysterau Gwybodaeth am faterion yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau ar draws lleoliadau gofal sylfaenol, gofal aciwt a gofal cartref a gwybodaeth am y rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol Y gallu i ddeall a gwerthfawrogi polisiau Cenedlaethol a Lleol sy'n gwrthdaro â phresgripsiynu gofal sylfaenol, blaenoriaethau'r rhwydwaith/clwstwr a materion sy'n wynebu timau gofal sylfaenol, e.e. Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, contractau fferyllfeydd Dealltwriaeth o gyllidebau a gwybodaeth ariannol a dealltwriaeth o gyfrifoldebau iechyd a diogelwch personol. Derbyn a sicrhau cyfrinachedd llym i gleifion yn unol â pholisiau'r GIG Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ba mor bwysig yw cynnwys cleifion, gwybodaeth ddigonol am feddalwedd presgripsiynu (CASPA) a systemau clinigol practisau meddygon teulu</p>	<p>Wedi cofrestru gyda'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol</p> <p>Aelodaeth Cyfadran y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol neu'n gweithio tuag at hynny</p> <p>Datblygu gwasanaethau ledled y rhyngwyneb gofal sylfaenol/gofal eilaidd.</p>	<p>Profiad helaeth a sylweddol ar ôl cofrestru mewn lleoliad gofal sylfaenol, yn cynnwys gweithio mewn practis meddyg teulu. Profiad helaeth a sylweddol o ymarfer fel presgripsiynydd anfeddygol, ar ôl datblygu cwmipas ymarfer eang neu hynod arbenigol Sgiliau uwch o ran adolygu meddyginiaethau Profiad o reoli pobl, yn cynnwys goruchwyliaeth glinigol o ddydd i ddydd, tystiolaeth o ddatblygu strategaethau a rheoli newid mewn sefyllfaoedd hynod gymhleth. Arwain a datblygu polisiau a datblygiadau mewn gwasanaethau oddi mewn i gwmpas ymarfer arbenigol Profiad o weithio mewn amgylchedd tîm gofal iechyd. Deall sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r GIG, sy'n effeithio ar bresgripsiynu, a deall ysgogiadau ymarferol ac emosiynol sy'n perthyn i ymddygiad presgripsiynu</p> <p>Profiad blaenorol o weithio gyda chlinigwyr a thimau amlddisgyblaethol, gwaith amlasiantaethol, arbenigedd mewn Dadansoddi Presgripsiynu a Data Costau</p> <p>Profiad o hwyluso newid er mwyn gwella ymarfer clinigol, profiad o gyflwyno sesiynau hyfforddi arbenigol i amrywiol grwpiau sy'n perthyn i'ch disgyblaeth chi ac i ddisgyblaethau eraill</p>	<p>Profiad o fentora a darparu goruchwyliaeth glinigol Profiad o reoli prosiectau</p>

Doniau a Galluoedd Hanfodol	Dymunol	Meini Prawf Hanfodol Eraill
<p>Dilyn a Dangos Gwerthoedd ac Ymddygiadau Prifysgol Bae Abertawe</p> <p>Sgiliau o ran dadansoddi cyffuriau a gwybodaeth cleifion mewn maes arbenigol er mwyn gallu darparu cyngor ynghylch meddyginiaethau, dosau, problemau cynhyrchu mewn meysydd lle ceir diffyg gwybodaeth, a phan fo gwahaniaethau i'w cael mewn safbwyntiau meddygol neu safbwyntiau eraill</p> <p>Y gallu i feddwl yn strategol ac wysg eich ochr a'r gallu i ddadansoddi a datrys problemau hynod gymhleth a chynllunio amrywiaeth eang o weithgareddau cymhleth yn effeithiol</p> <p>Sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu (ysgrifenedig a llafar), cyflwyno a dylanwadu effeithiol gogyfer gweithio gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ac uwch-unigolion mewn asiantaethau eraill, oddi mewn ac oddi allan i'r GIG</p> <p>Y gallu i weithio'n annibynnol, yn effeithiol ac yn llawn cymhelliant am gyfnodau maith, ynghyd â'r gallu i flaenoriaethu a gweithio o fewn amserlenni, gan orfod delio'n aml ag ymyriadau a cheisiadau brys</p> <p>Dull proffesiynol o weithio, gan ddangos sgiliau rhagorol o ran rhyngweithio gyda chleifion. Gan ddilyn cod proffesiynol, byddwch yn atebol ac yn gyfrifol am eich camau proffesiynol eich hun. Llauer o hunangymhelliant a'r gallu i weithio ar eich liwt eich hun, yn annibynnol ac mewn tîm aml-ddisgyblaethol/tîm rheoli</p> <p>Y gallu i arwain, grymuso a chymhell eraill er mwyn ennyn hyder a hygredd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol</p> <p>Y gallu i weithio dan bwysau a blaenoriaethu tasgau er mwyn sicrhau bod gwaith brys yn cael ei gwblhau ar amser. Tystiolaeth o sgiliau arwain, y gallu i drafod gyda rhanddeiliaid hollbwysig a'r gallu i ddylanwadu arnynt (sef rhanddeiliaid oddi mewn i'r gwasanaeth a'r bwrdd iechyd a hefyd rhanddeiliaid allanol/ar lefel Cymru Gyfan)</p>	<p>Mae Sgiliau Iaith Gymraeg lefelau 1 i 5 yn ddymunol mewn deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg</p>	<p>Y gallu i deithio o fewn yr ardal ddaearyddol.</p> <p>Y gallu i weithio oriau hyblyg.</p> <p>Archwiliad DBS Safonol/Uwch boddhaol, yn cynnwys archwiliad Rhestr Waharddedig Plant ac Oedolion</p>



JOB TITLE: Advanced Primary Care Pharmacist

Band: 8b

JOB OVERVIEW:

